Cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd y Swyddfeydd Taleithiol, 39, Heol y Gadeirlan

Cynhwysa'r dudalen hon dair set o gyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd at Swyddfeydd Taleithiol yr Eglwys yng Nghymru 39, Heol y Gadeirlan, Caerdydd:

- O Orsaf Ganolog Caerdydd
- O'r Gorllewin ynteu'r A470 trwy gyffordd 33 yr M4
- O'r Dwyrain ar hyd yr M4 (wedi croesi Pont Hafren)

O ORSAF REILFFORDD GANOLOG CAERDYDD (ar droed)

- Gyda phorth yr orsaf y tu ôl i chi, ac â chithau'n wynebu gorsaf y bysiau, ewch allan trwy'r fynedfa ar y chwith o'r buarth o flaen yr orsaf. Wedi cyrraedd y goleuadau traffig, trowch i'r chwith heibio i Stadiwm y Mileniwm a chroeswch yr Afon Tâf (bellach rydych ryw 300 llath o'r orsaf).
- Yn syth wedi croesi'r afon, trowch i'r dde i lawr Fitzhamon Embankment.
- Ar ôl rhyw 400 llath pellach, mae'r ffordd yn troi yn chwyrn i'r chwith gan newid ei henw i Despenser Street.
- Wedi 150 llath, trowch i'r dde ger cylchfan i mewn i Heol Isaf y Gadeirlan.
- Wedi 150 llath pellach, byddwch wedi cyrraedd cyffordd brysur arall â goleuadau traffig yn ei rheoli. Mae Heol Isaf y Gadeirlan yn croesi Heol y Bontfaen gan newid i fod yn Heol y Gadeirlan.
- Mae rhif 39 (sydd mewn difrif yn cynnwys 37, 39 a 39A) ar y chwith rhwng y cyntaf a'r ail ffordd ar y chwith.
- Trowch i'r chwith ger y cyntaf o'r goleuadau traffig, yna i'r chwith eto i mewn i'r lôn gyntaf ar y chwith ac i'r chwith wedyn eto i mewn i'r maes parcio. Mae'r brif fynedfa i '39' o'r maes parcio.

O'R GORLLEWIN YNTEU'R A470 TRWY GYFFORDD 33 YR M4

- Gadewch yr M4 yng nghyffordd 33 ac ymadewch â'r gylchfan trwy'r allanfa gyntaf - A4232 (y ffordd gyswllt).
- Anwybyddwch yr arwyddion ar gyfer allanfeydd yr Amgueddfa Werin a Chroes Cyrlwys ac ar ôl o ddeutu 5 milltir, ymadewch â'r ffordd gyswllt trwy'r allanfa sydd â'r arwyddion ar gyfer Ystâd Ddiwydiannol Lecwydd a'r Ganolfan Chwaraeon.
- Wrth i chi ddilyn y ffordd ymadael, arhoswch yn y lôn chwith ac yn y gylchfan cymrwch yr allanfa gyntaf (Ffordd Lecwydd) gydag arwyddion sy'n dynodi Canol y Ddinas. Byddwch yn mynd heibio canolfan chwaraeon ar y dde a chaeau ar y chwith.
- Wedi ¼ milltir, ac wedi cyrraedd y goleuadau traffig ewch yn syth yn eich blaen. Byddwch yn mynd o dan bont reilffordd.
- Wedi canllath arall byddwch yn cyrraedd set arall o oleuadau traffig. Trowch i'r dde (ond nid yn chwyrn i'r dde) i mewn i heol lydan (Wellington Street) sy'n arwain at ganol y ddinas. 30 m.y.a. yw'r cyfyngiad cyflymdra yma.
- Wedi o ddeutu ¼ milltir, ewch yn syth yn eich blaen yn y goleuadau traffig nesaf, gan barhau i fynd tuag at ganol y ddinas. Rydych bellach ar Ffordd y Bontfaen.
- Wedi 300 llath, yn y goleuadau traffig nesaf, trowch i'r chwith i mewn i Heol y Gadeirlan. Ar y llaw chwith ac nid nepell cyn i chi gyrraedd y goleuadau traffig, fe welwch adeilad Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol sydd â lawnt o'i flaen.
- Ewch yn eich blaen i fyny Heol y Gadeirlan at y goleuadau traffig nesaf, sydd â mynegbost yn cyfeirio at Athrofa Chwaraeon Cymru a Gerddi Soffia. Trowch i'r chwith yn y gyffordd hon ac i'r chwith eto bron yn syth wedyn, i mewn i lôn gefn. Y fynedfa gyntaf y dewch iddi yw'r ffordd i mewn i faes parcio'r Eglwys yng Nghymru. (Os yw'r lôn fach wedi ei chau gan gerbydau wedi parcio ynddi, ewch yn eich blaen a throwch i'r chwith yn y tro nesaf, yr un wedyn a'r un canlynol er mwyn cyrraedd pen arall y lôn.)

O'R DWYRAIN, AR HYD YR M4 WEDI CROESI PONT HAFREN:

- Ymadewch â'r M4 yng nghyffordd 29, sydd â'r arwydd A48(M) Caerdydd. Arhoswch ar yr A48 tan i'r draffordd droi yn ffordd A ddeuol (wedi 1.5 milltir)
- Dilynwch yr A48 am o ddeutu 7 milltir pellach, gan anwybyddu arwyddion ar gyfer canol y ddinas, tan fod y ffordd ddeuol yn dod i ben (yn fuan wedi cyffordd 3 lefel, y cyfyngiad cyflymdra 40 mya, cip ar Eglwys Gadeiriol Llandaf ar y llaw dde, a'r set gyntaf o oleuadau traffig).

- Wedi'r bont dros yr afon Taf mae'r ffordd ddeuol yn ail-gychwyn!
- Dilynwch y fforc yn y ffordd tua'r chwith gan ddilyn yr arwydd ar gyfer canol y ddinas (o ddeutu 0.5 milltir y tu hwnt i'r goleuadau traffig cyntaf sy'n darparu mynediad i'r Coleg Technegol ar y llaw dde)). Arhoswch yn y lôn chwith ac yn y goleuadau traffig sy'n rheoli llif y traffig trwy'r gyffordd "T" trowch i'r chwith (i mewn i Heol Caerdydd).
- Wrth y set nesaf o oleuadau (0.5 milltir), trowch i'r chwith (golau ffilter yn weithredol) i mewn i Penhill Road. Dilynwch y ffordd hon am o ddeutu 0.75 milltir (mae'n newid ei henw i Heol y Gadeirlan).
- Nid nepell cyn y groesfan Belican (y drydedd ers i chi droi i mewn i Penhill Road), mae 'na droeon i'r dde a'r chwith. Mae canol y ffordd â lonydd cyfeiriedig er mwyn cynorthwyo gyrwyr sy'n dod o ganol y ddinas i droi i'r chwith, sef i mewn i Erddi Soffia (Athrofa Chwaraeon Cymru). Mae'r tro i'r dde, rhwng blwch llythyron coch ar un cornel a bocs ffôn cyhoeddus coch hen ffasiwn gerllaw'r llall, ym mynd â chi i Talbot Street.
- Trowch i'r dde i mewn i Talbot Street ac ar ôl ugain llath trowch i'r chwith i mewn i "lôn gefn" – mae garej o friciau ar y cornel.
- Y maes parcio cyntaf ar y chwith yw un yr Eglwys yng Nghymru. Parciwch mewn unrhyw ofod parcio gwag ac eithrio'r un sy'n union gerllaw mynedfa gefn yr adeilad - sydd wedi ei neilltuo ar gyfer dadlwytho nwyddau.